## Adolygiad

*Naturiaethwr Mawr Môr a Mynydd*, Bywyd a Gwaith J. Lloyd Williams, Dewi Jones, Gwasg Dwyfor, td.160, pris £12.50

FAINT ohonom sydd yn gyfarwydd â gorchestion John Lloyd Williams, y gwyddonydd? Ychydig, dybiwn i.

Yn ei lyfr ardderchog, tywysa Dewi Jones ni ar hyd gyrfa hynod ddiddorol a rhyfeddol y gwyddonydd disglair, John Lloyd Williams, a anwyd ym Mhlas Isa, Lanrwst, hen gartref William Salesbury. Yn ôl yr awdur, datblygodd ei ddealltwriaeth o fyd natur gartref ar yr aelwyd, a hynny o dan law ei fam, a gefnogai ei fynych grwydriadau i gasglu gwahanol enghreifftiau lleol o fyd natur. Doedd hi ddim wedi cael mwy nag addysg ysgol Sul, ond eto, cymerodd gymaint o ran yn ei ddatblygiad drwy bori'n gyson yn *Y Gwyddoniadur*, gan drosglwyddo gwybodaeth ddiddorol ym maes Daearyddiaeth, Daeareg a Botaneg, i'w hepil disglair, a oedd yn fodd i sbarduno ei chwilfrydedd a'i ddiddordeb.


Wedi pum mlynedd fel disgybl-athro yn Ysgol Frutanaidd Llanrwst, cychwynnodd fel myfyriwr yn y Coleg Normal ar gyfer bod yn athro ysgol. Elfennol a chul iawn oedd gwersi Botaneg yn y coleg bryd hynny, ac nid oedd fawr o newid wedi bod yn y pwnc ers dros ddau gan mlynedd. Ond fel y dynesai'r bedwaredd ganrif ar bymtheg at ei therfyn, yr oedd cryn newidiadau ar droed, a daeth John Lloyd Williams yn rhan o'r chwyldro. Bu'n ffodus yn y Dirprwy-Brifathro, John Price. Mae'n debyg mai hwn oedd y gŵr a ddylanwadodd fwyaf arno yn y pwnc hwn, er nad oedd Botaneg yn un o'i bynciau swyddogol.

Ym 1875 penodwyd John Lloyd Williams yn brifathro Ysgol Elfennol Garn Dolbenmaen. Yno y cafodd rwydd hynt i grwydro'r llethrau a'r mawndir yn ei flys a'i ysfa i adnabod ac i ddarganfod lleoliadau planhigion prin.

Yn 1893 trodd ei gefn ar y Garn, a dechreuodd ar gyfnod o bedair blynedd yn y Royal College of Science, South Kensington, lle y bu'n gweithio dan yr Athro John Bretland Farmer. Erbyn hyn, cyfrifid ef yn brif arbenigwr ar fflora Arctig-Alpaidd Eryri.

Yn ystod ei gyfnod yn Llundain, cychwynnodd ei waith ymchwil ar fathau arbennig o wymon, a chyhoeddodd ffrwyth yr ymchwil hwnnw yn yr Annals of Botany 1896, a The Proceedings of the Royal Society, 1897. Dyma'r tylwyth na chafodd gymaint a hynny o sylw ym Mhrydain.

Ym Mangor, ac yntau yn ddarlithydd cynorthwyol yn yr Adran Llysieueg, y gorffennodd ei waith mwyaf adnabyddus, sef ei ymchwil i ddarganfod dirgelion bywyd y gwymon Dictyota. Datgelodd sut oedd y rhywogaeth yma yn atgenhedlu a ffrwythloni. Roedd sôn mawr am J. Lloyd Williams a'i ddarganfyddiadau




ym Mangor pan oeddwn i yn fyfyriwr yn yr Adran Llysieueg yno, a'r darlithydd A. N. Woodhead yn canu ei glodydd am ei holl waith ar ddatrys rhod bywyd y gwymon.

Yn 1915, penodwyd ef yn Athro Llysieueg Coleg y Brifysgol, Aberystwyth, a bu yn ei swydd tan ei ymddeoliad yn 1925.

Mae Dewi Jones wedi llwyddo yn rhyfeddol i gyflwyno athrylith inni rhwng cloriau'r llyfr, oes wyddonol John Lloyd Williams. Ychydig iawn sydd wedi hyd yn oed glywed am ei orchestion, ac yn sicr ni chrybwyllir gair amdano mewn unrhyw ysgol na choleg. Ceir yma gyflwyniad sy'n hynod ddarllenadwy a sy'n dangos ôl ymchwil manwl a thrylwyr gan yr awdur. Erys, wrth gwrs, ddiddordebau cerddorol J. Lloyd Williams i rywun arall eu croniclo.

Un o Rosgadfan yw Dewi Jones yn wreiddiol, ond mae wedi ymgartrefu ym Mhen-y-groes Dyffryn Nantlle ers 1967. Yn ystod ei oriau hamdden, mae'n hoff o gerdded mynyddoedd Eryri, gan ymddiddori ym mhlanhigion Arctig-Alpaidd yr ardal. Yn ogystal â nifer o fân erthyglau a gyhoeddwyd ganddo, mae'n awdur Tywysyddion Eryri, The Botanists and Guides of Snowdonia a Cynghanedd, Cerdd a Thelyn yn Arfon; fe gyfrannodd, hefyd, bennod ar redyn i'r gyfrol *The Plant Life of Snowdonia* a gyhoeddwyd yn 2001.

Mae hon yn gyfrol werth ei darllen a'i phrynu.

## Y Goron arall

*(Parhad o'r dudalen flaen)*

Methiant fu menter yr hen bry a'i prynodd hi yn Y Gaerwen, felly. Eithr dim ond methiant dros dro yn ddiamau, oblegid mae gan rai o'i wehelyth ef y ddawn fawr o fownsio'n ôl yn eitha' dianaf bob gafael er mwyn bod y tu clytaf i'r clawdd. A does dim dwywaith na fydd coron Peniel Llanllechid yn ymddanos mewn rhyw ocsiwn neu'i gilydd eto'n fuan, onid ydyw wedi gwneud hynny eisoes, ac y gwerthir hi am eitha' crocbris yn hwyr neu'n hwyrach.

Digon i beri i'r bardd buddugol gwreiddiol droi yn ei fedd! Ond pwy yn union, tybed, oedd yr William Roberts hwnnw?

Onid wyf yn cyfeiliorni'n rhy ddifrifol, nid un o Lanaelhaearn ydoedd eithr brodor o bentref Trefor gerllaw. Fe'i ganed yn y flwyddyn 1881. Chwarelwr wrth ei alwedigaeth a adwaenid fel Gwilym Ceiri wrth ei enw barddol, gŵr tawel a diwylliedig a roesai lawer o'i fryd ar lenydda. Yn ôl y sôn y mae ambell englyn o'i eiddo ar gof a chadw o hyd yn ei fro enedigol. Cyhoeddwyd un ohonynt, ***Pistyll***, yn ***Awen Arfon*** (gol. cyffredinol Emlyn Evans) Llyfrau'r Dryw 1962.

Pistyll

Bu nain a bu nain honno – â'i phiser
Hen ffasiwn odano;
Er rhoi fel hyn er cyn co'
Rhed ataf yn rhad eto.

Y beirniaid yn eisteddfod Llanllechid, yr un a ddyfarnodd y goron iddo, oedd Robert Williams Parry, neb llai. Yn wir, dyfarnwyd ambell gadair yn ogystal iddo gan yr union feirniad craff hwnnw. Gwelir un ohonynt heddiw ar fethyg yng Nghanolfan Tŷ Newydd, Llanystumdwy.

Bu i William Roberts un ferch, Falmai, a fu'n athrawes yn ysgol Uwchradd Bryn'refail am gyfnod cyn iddi ymddeol i dreulio blynyddoedd olaf ei hoes ym Mhwllheli.

CYMDEITHAS BOB OWEN

**FFAIR LYFRAU** (Ail-law a Hynafiaethol)

Ysgol Penweddig, Aberystwyth

Dydd Sadwrn 24 Ebrill

**10 y bore – y prynhawn**

Miloedd o lyfrau Cymraeg a Saesneg ar werth,
yn ogystal â phrintiadau a hen fapiau.
Mynediad £1 (yn cynnwys te a choffi)
Agorir y ffair gan **Y Parch W. J. Edwards**
Am fwy o fanylion cysylltwch â'r Ysgrifennydd (01970) 623174